# 19. Chwilio am Seren

**CYMERIADAU**

- CAPTEN
- ATHRO
- ARCHWILIWR
- MAM
- PLENTYN 1, 2, 3 a 4
- DAD
- GŴR DOETH 1, 2 a 3
- MAIR

**Y LLWYFAN**

Dwy res o flociau – un darn yn fwy na'r llall ar y brig a'r ail res sy'n llai yn cynrychioli'r llong-ofod; gyda thair cadair yn wynebu'r gynulleidfa.

**GOLYGFA 1**

Mae tri gofodwr yn eistedd yn y llong ofod yn wynebu'r gynulleidfa. Mae'r CAPTEN wrth y llyw; mae'r ATHRO gyda'i lyfr nodiadau a'i bin ysgrifennu; mae'r ARCHWILIWR yn gafael mewn rhyw ddyfais debyg i ddryll neu lamp fflach. Clywir cerddoriaeth addas yn y cefndir. Sylla'r tri ohonynt yn eu blaen.

CAPTEN: Rydym ar y llwybr iawn ar gyfer y Ddaear. Pa gyfnod ydach chi'n ei awgrymu Athro?

ATHRO: Bydd unrhyw un yn addas Capten. Fe adawa i i'n ffrind yr Archwiliwr ddewis yr amser.

ARCHWILIWR: Chi ydy'r un a ddylai ddewis Athro. Rydan ni yma i gadarnhau eich damcaniaethau ac i chwilio am holl sêr y Llwybr Llaethog. Awgrymwch amser Athro.

ATHRO: Rydw i bob amser wedi ymddiddori yn yr unfed ganrif ar hugain – cyfnod llewyrchus ym myd gwyddoniaeth ar y Ddaear. Nid cystal â'n cyfnod ni ar Marctus; ni lwyddodd y Ddaear i gyrraedd ein safon ni. Yr unfed ganrif ar hugain – anelwch amdani hi.

ARCHWILIWR: Dyma ni. Rydw i'n gosod y botymau yn y lle cywir, fe gawn weld be ddaw wedyn.

[*Mae'r ARCHWILIWR yn edrych ar y ddyfais o'i flaen ac yn cynnau'r golau. Mae'n chwarae efo'r golau ac o'r diwedd mae'r golau yn canolbwyntio ar goeden Nadolig sy'n ganolbwynt parti Nadolig sy'n digwydd ar ochr dde'r llwyfan*]

CAPTEN: Be sydd yna? Grŵp o ddaearolion, oedolion a phlant. Be maen nhw'n ei wneud?

ATHRO: Rhyw fath o barti sydd yna dwi'n siŵr. Maen nhw'n amlwg yn mwynhau eu hunain. Bwyd ac anrhegion a hetiau lliwgar. Ac yn y canol – coeden hardd.

ARCHWILIWR: Ydych chi'n gweld be sydd ar ben y goeden? Rhyw seren fetel ryfedd – dyna dynnodd sylw ein dyfais fecanyddol ni!

CAPTEN: Ond roeddwn i'n meddwl ein bod yn chwilio am sêr go iawn ac nid rhai ffug.

ATHRO: Efallai fod yna arwyddocâd i'r seren fetel. Gadewch i ni weld be mae'r daearolion yn ei wneud. Be am i un ohonoch droi'r botwm sŵn i weithio?

[*Mae'r ARCHWILIWR yn troi botymau a chlywir sŵn yr olygfa ar y Ddaear*]

**GOLYGFA 2**

Parti'r goeden Nadolig. Mae'r PLANT yn chwarae gêm tra bo'u rhieni'n edrych arnynt.

MAM: Brysiwch blantos. Pasiwch y parsel ymlaen fel y gall pawb gael tro ar dynnu'r papur. Mae 'na anrheg yn y canol i rywun lwcus.

PLENTYN 1: Dwi'n gobeithio mai fi gaiff o Mam. Rhywbeth caled sydd yna.

DAD: Pasiwch o ymlaen yn gyflym er mwyn i'r person sydd agosa atoch gael tro.

PLENTYN 2: Y fi sydd wedi'i gael o! [*Mae'n tynnu haenen o bapur*] O na! Mae haenen arall eto!

PLENTYN 3: Rhowch o i mi! Rhaid mai fi sydd am gael yr anrheg rŵan! [*Mae'n rhwygo'r papur*] O na! Haenen arall wir!

MAM: Wel, mae'r plant yn mwynhau'r gemau dros gyfnod y Nadolig – diolch byth mai ond unwaith y flwyddyn mae'r Nadolig. Mae'r holl weithgareddau yma'n flinedig iawn

DAD: Mi fasa'n well gen i petawn i'n cael gwylio'r teledu Enid. Roeddwn i eisiau gweld y ffilm gowboi – mae 'na un dda ymlaen pob Nadolig.

MAM: Wel, fe fydd raid i ti aros. Amser i barti'r plant ydy hwn. Gei di wylio'r teledu rhyw dro eto. Ydach chi wedi dod at yr haenen ola bellach blant?

PLENTYN 4: Dwi wedi'i gael o. Dwi wedi'i gael o!

PLENTYN 1: Be ydy o? Dangos i ni!

PLENTYN 4: [*Yn dangos tegan plastig ar ffurf llong-ofod*] Llong-ofod ydy o. [*Edrycha'r PLENTYN yn eithaf siomedig*] A finna'n meddwl yn siŵr mai fferins oedd yn y parsel.

PLENTYN 2: Fe gymera i'r llong-ofod os nad wyt ti isio hi.

MAM: Rŵan blant, peidiwch â ffraeo. Dafydd gafodd hi, felly Dafydd ddylai ei chadw.

PLENTYN 4: Ond tydw i ddim yn hoffi'r llong-ofod.

DAD: Am blentyn anniolchgar! Mae hi'n llong-ofod fach ddel iawn. Fe gawson ni hi am bris da iawn yn Tesco. Edrych, mae hi'n goleuo ac yn gneud sŵn.

CAPTEN: Trowch y botwm sain i ffwrdd. Tydw i ddim eisiau clywed rhagor.

ATHRO: Ond dydan ni ddim wedi dod o hyd i arwyddocâd y seren fetel eto.

CAPTEN: Pam na rowch chi'r pelydr golau ar un o'r plant er mwyn i ni ei holi?

ARCHWILIWR: Pa blentyn sydd ar eich meddwl?

ATHRO: Fe ofynnwn ni i'r hen genau bach yna sy'n casáu'r llong-ofod. Gadewch i ni weld be wnaiff o o hyn!

ARCHWILIWR: O'r gorau. [*Mae'n troi'r ddyfais olau at BLENTYN 4 a chlywir sŵn main uchel. Tynnir PLENTYN 4 at y sŵn ac i fyny at y llong-ofod, edrycha o'i gwmpas mewn syndod*]

PLENTYN 4: Be sy'n digwydd? Lle ydw i?

ATHRO: Rwyt ti ar y llong-ofod Cosmig – fe hoffen ni ofyn rhai cwestiynau i ti.

PLENTYN 4: Llong-ofod? Ond tydw i ddim yn deall. Funud yn ôl roeddwn i gartref yn chwarae efo fy ffrindiau, roedden ni'n cael parti Nadolig.

CAPTEN: Wel, rŵan rwyt ti yng nghanol y gofod 'machgen i. Mewn amser hollol wahanol. Ond paid â phoeni. Tydi llongau-gofod ddim mor ddrwg ag yr wyt ti'n meddwl!

ATHRO: Y cyfan rydan ni eisiau ei wybod ydy – be ydy arwyddocâd y seren fetel sydd ar frig eich coeden Nadolig?

PLENTYN 4: Seren? O, seren Nadolig ydy hi. Dilynodd y gwŷr doeth y seren honno.

ATHRO: Mae'n ddrwg gen i, ond fe fydd rhaid i ti egluro ymhellach. Fel y sylwi, dydan ni ddim o'r un byd â thi. Rydan ni'n dod o'r blaned Marctus sydd lawer o flynyddoedd mewn amser i ffwrdd o'ch Llwybr Llaethog chi. Pwy oedd y gwŷr doeth?

PLENTYN 4: Tydw i ddim yn gwybod be oedd eu henwau ond fe ddaethon nhw ar eu camelod ar draws yr anialwch. Roedden nhw wedi gweld seren yn yr awyr, seren oedd yn deud fod brenin newydd wedi'i eni. Iesu.

ATHRO: Iesu? Iesu, ddywedaist ti? Ydach chi wedi clywed am y fath frenin?

CAPTEN: Naddo 'rioed!

PLENTYN 4: Wel, roedd o'n bod – rhyw ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Cafodd ei eni adeg y Nadolig.

ATHRO: Mae'n amlwg fod yn rhaid i ni wneud tipyn mwy o waith ymchwil. Diolch i ti 'machgen i. O, cyn i ti fynd, cymer y fferins yma. Fferins o blaned Marctus – llawer mwy blasus na'r rhai cei di ar eich planed chi. [*Mae'r ATHRO yn rhoi fferins i'r PLENTYN; a hwnnw'n edrych arnynt yn eithaf amheus*]

Dydd da i ti!

[*Mae'r ARCHWILIWR yn cynnau'r golau eto ac mae'r bachgen yn ôl yn ei gartref*]

ATHRO: A be oeddech chi'n ei feddwl o hynna ta?

ARCHWILIWR: Does ond un ffordd i ddod o hyd i'r hyn roedd y plentyn yn sôn amdano. Gadewch i ni fynd yn ôl ddwy fil o flynyddoedd, fe geisiwn ddod o hyd i'r seren ryfedd honno.

ATHRO: Ie, fe wnawn ni hynny.

[*Mae'r ARCHWILIWR yn troi'r botymau ac yn anelu'r golau at ochr chwith y llwyfan*]

**GOLYGFA 3**

Y GWŶR DOETH. Dônt i mewn o'r ochr chwith wrth y rhes isaf. Mae'r tri yn edrych i fyny i'r ffurfafen.

ATHRO: Mae hyn yn edrych yn obeithiol.

GŴR DOETH 1: Rydw i wedi'i cholli. Roedd hi yno'n glir rai munudau'n ôl.

GŴR DOETH 2: Peidiwch â phoeni gormod. Mae'r seren wedi gneud ei gwaith beth bynnag. Daeth â ni i'r lle iawn. Gallwn fynd yn ôl adref hebddi.

GŴR DOETH 3: Roeddwn i wedi dod mor gyfarwydd â'i dilyn, ar draws yr anialwch nes mod i'n unig iawn hebddi.

GŴR DOETH 2: Ddylen ni ddim teimlo'n unig. Does gennych chi ddim ryw deimlad cynnes o'ch mewn fel sydd gen i? Rhyw deimlad na fydd pobl mor unig o hyn ymlaen? Bu'n rhaid i ddyn gario 'mlaen ar ei ben ei hun am amser maith. Ond rŵan, gan fod y plentyn arbennig wedi cyrraedd, bydd dynion yn cael llawer mwy o gymorth.

GŴR DOETH 1: Rhoddodd Duw seren i ni i'w dilyn ond rŵan mae fel petai'r seren y tu mewn i ni – yn gynnes a chysurus. Wnes i 'rioed deimlo mor hapus â hyn.

GŴR DOETH 3: Roedd o'n hoffi'n anrhegion ni hefyd. Roedd ei ddwylo bach o'n teimlo, a'i drwyn bach del yn crychu fel yr aroglai'r persawr.

GŴR DOETH 2: Baban bach prydferth iawn. Seren o faban bach. Roedd ei lygaid bach o mor fywiog, 'run fath yn union â sêr bychan yn disgleirio.

GŴR DOETH 1: Gobeithio y bydd dynion yn ei dderbyn – am mai ef ydy creawdwr y sêr a'r planedau. Daeth yma i'n byd i atgyweirio'r holl ddinistr a wnaed gan ffolineb dyn.

ATHRO: Glywsoch chi hynna? Iawn. Cyn i ni fynd gam ymhellach, be am ddod â'r gwŷr doeth yma? Sydyn, sydyn!

GWŶR DOETH: Be yn y byd ... help! Sut ddaethon ni yma?

ATHRO: Peidiwch â chynhyrfu foneddigion. Gadewch i mi gyflwyno fy hun – yr Athro Dalom o'r Athrofa Wyddonol, planed Marctus. Rydw innau hefyd, os wnewch chi fy esgusodi am frolio fy hun, yn ŵr doeth.

GŴR DOETH 1: Fedra i ddim credu hyn. Be ydy'r peiriant rhyfedd yma?

CAPTEN: Does dim byd yn rhyfedd ynddi. Llong-ofod ydy hi.

GŴR DOETH 2: [*Yn rhoi ei ddwylo ynghyd*] Boed i Dduw ein gwarchod.

ARCHWILIWR: Peidiwch â phoeni ffrindiau. Rydych chi'n ddiogel, wnaiff dim byd fynd o'i le ar y llong yma – fe gafodd ei harchwilio yn ofalus iawn gan ddynion medrus.

ATHRO: Dim ond atebion i rai o'n cwestiynau gyfeillion. Fel y gwelwch, rydan ninnau hefyd yn sêr ddewinwyr. Rydan ni'n teithio drwy'r gwagle yn chwilio am sêr newydd ac yn ysgrifennu amdanyn nhw. Ond mae eich seren chi o ddiddordeb arbennig i ni. Hefyd, be am y baban newydd-anedig a alwoch yn "seren o faban" – be oeddech chi'n ei olygu wrth hynny?

GŴR DOETH 2: O, doeddwn i ddim yn golygu ei fod wedi'i eni o seren. Na, roedd mor fendigedig fel y gallasai fod wedi dod o'r nef. Roedd o fel seren fechan wedi syrthio i'r ddaear.

GŴR DOETH 1: Rwyt ti'n anghofio, frawd. Fe ddaeth hwn o'r nef.

GŴR DOETH 2: Do, mi wn y daeth o. Ond nid fel seren yn syrthio'n 'glonc' ar y llawr. Daeth i'r byd 'run fath ag unrhyw faban dynol. Ond nid baban bach cyffredin mohono; hwn ydy mab creawdwr y sêr.

CAPTEN: Y be?

GŴR DOETH 3: Wyddoch chi pwy ydy creawdwr y sêr, Arglwydd y greadigaeth? Wel, addawodd y buasai'n dod ei hun, i'w fyd ei hun, un o'r bydoedd a greodd ef ei hun. Doedd o ddim am feiddio dod yn sŵn aflafar utgyrn. Na, roedd am ddod yn dawel, trwy ddrws y cefn os dymunwch. Daeth yma aton ni yn faban dynol. Peidiwch â gofyn am fwy o eglurhad. Mae o yma a fo ydy mab creawdwr y sêr ei hun.

ARCHWILIWR: Ond pam oedd o eisiau gneud hynny?

GŴR DOETH 1: Yn ystod eich teithiau trwy'r gofod mae'n siŵr eich bod wedi dod ar draws drygioni. Mae drygioni fel rhyw aflwydd sy'n crino dail y coed ac yn difetha cnydau yn y caeau. Mae'n byd ni wedi'i wenwyno cymaint fel mai dim ond y creawdwr ei hun all wneud pethau'n well. Daeth i'n gwella, i gael gwared ar yr holl ddrygioni.

ATHRO: Mae eich stori yn un ddiddorol ond mae'n rhaid i mi gael ffeithiau mwy pendant.

GŴR DOETH 2: Pam nad ewch chi i weld y baban?

ATHRO: Dyna syniad da. Diolch yn fawr i chi foneddigion. Chadwa i mohonoch chi mwyach. Gadewch iddyn nhw fynd yn ôl i'w hamser eu hunain Archwiliwr.

[*Mae'r ARCHWILIWR yn anfon y GWŶR DOETH yn ôl. Maen nhw'n gadael y llwyfan trwy'r fynedfa ar y chwith*]

CAPTEN: Glywsoch chi 'rioed y fath stori?

ARCHWILIWR: Ddeallais i 'run gair ohoni. Cael hwyl am ein pennau ni oedden nhw!

ATHRO: Be am geisio gweld y plentyn yma ar y ddyfais fecanyddol?

ARCHWILIWR: Ond fe wyddoch chi mai dim ond sêr all y peiriant yma eu lleoli.

ATHRO: Os ydy'r plentyn yma yn wir fab i greawdwr y sêr, fe ddylen ni allu dod o hyd iddo.

ARCHWILIWR: O'r gorau, cawn weld. Ond chawn ni fawr o lwyddiant dwi'n siŵr.

[*Mae'r ARCHWILIWR yn anelu'r peiriant i sawl cyfeiriad ac yna dechreua'r gerddoriaeth addas. Daw MAIR a'i baban ar y llwyfan, mae'n cerdded ar draws canol y llwyfan, daw'r golau o hyd iddi*]

ARCHWILIWR: Dyna hi! Dyna'r baban efo'i fam. Mae o'n edrych 'run fath ag unrhyw faban arall i mi.

ATHRO: Dewch â nhw i fyny yma er mwyn i ni gael gair efo'r fam.

**GOLYGFA 4**

Methiant fu ymgais yr ARCHWILIWR i ddod â MAIR ac Iesu i'r llong ofod.

ARCHWILIWR: Athro, does dim byd yn digwydd. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd.

ATHRO: Be rydach chi'n ei feddwl? Mae'n rhaid i'r peiriant weithio.

CAPTEN: Arhoswch funud. Os mai gwir fab creawdwr y sêr wedi dod i'r ddaear am reswm arbennig ydy'r plentyn – yna ni allwch yn hawdd iawn ei gael oddi yna. Os mai o ydy'r meistr go iawn, yna tydi eich peiriant chi yn dda i ddim!

ATHRO: Os felly, fe af i lawr yna.

ARCHWILIWR: Ga i ddod hefyd? Efallai y bydd y ddyfais fecanyddol yn dod o hyd i fwy o wybodaeth ddefnyddiol.

CAPTEN: Dyna ni eto! Mae'n debyg mai fi fydd yn gorfod aros yma i ofalu am y llong-ofod?

ATHRO: Wel, mae'n rhaid i rywun aros. Gadewch i ni fynd.

[*Mae'r ATHRO a'r ARCHWILIWR yn gafael yn y peiriant mecanyddol ac yn camu i lawr i'r rhes nesaf*]

MAIR: [*Yn eu gweld yn nesáu*] Mwy o ymwelwyr! Rydan ni'n cael diwrnod prysur heddiw.

ATHRO: Esgusodwch fi, madam. Rydan ni wedi teithio yma o hirbell. Hoffen ni ofyn tipyn o gwestiynau am eich mab bychan.

MAIR: Mae croeso i chi ofyn beth bynnag a fynnoch. Pam fod eich ffrind yn anelu'r peiriant od yna at fy maban bach i?

[*Mae'r peiriant yn fflachio dros ben y baban*]

ATHRO: Rydan ni'n gneud ymholiadau. Fe ddeudodd rhywrai wrthon ni fod eich baban yn un arbennig iawn, a'i fod mewn gwirionedd yn frenin.

MAIR: Yn ôl y proffwydoliaethau, fe fydd yn frenin. Ond ar hyn o bryd dim ond fy maban bach hapus i ydy o – yn mwynhau ei hun fel pob baban arall. Ond fe ddaw dydd ei frenhiniaeth.

ARCHWILIWR: Athro! Athro! Mae'r ddyfais fecanyddol yn codi arwyddion rhyfedd iawn. Rydw i'n gweld dyn yn siarad o flaen torf fawr o bobl. Maen nhw'n gwrando'n astud arno ond mae wynebau eitha sur gan y rhai sy'n gwisgo hetiau mawr. Mae'n amlwg nad ydyn nhw'n cytuno efo'r dyn. Yna ... rŵan, rydw i'n gweld criw o bobl yn ei amgylchynu, hen griw gwyllt, cas yr olwg hefyd. Arhoswch funud, maen nhw'n ei lusgo i rywle. Fedra i ddim gweld yn glir iawn rŵan ond dwi'n siŵr ei fod o'n cael ei lusgo allan i rywle ... ie, dyna fo ar ochr rhyw fryn. O! Maen nhw'n ei gam-drin, maen nhw'n ... o, Mam bach, mae hyn yn greulon iawn.

MAIR: Rydych chi'n edrych ar ddyfodol fy mab. Fe ddeudodd negesydd Duw wrtha i y byddai mawredd i'w fywyd. Ond roedd proffwydoliaeth arall yn darogan gwae a thristwch mawr.

ATHRO: Madam, mae gen i gynnig i'w wneud. Ni ellir caniatáu gadael mab creawdwr y sêr ar y blaned hon. Fydd neb yn deall pam mae o yma yn y lle cyntaf. Bydd pobl yn ei gasáu a byddan nhw'n ceisio ei ladd o. Gadewch i mi fynd â fo yn ôl efo fi i'n planed ni. Fe fydd o'n ddiogel yno. Yno, fe gaiff gyfle i dyfu'n ddyn cryf, a chaiff ei barchu gan bawb. Bydd cyfle iddo fod yn wir frenin. Cawn ninnau elwa ar ei ddoethineb a'i bŵer. Ac wrth gwrs mae pob croeso i chithau ddod hefyd.

MAIR: [*Yn pendroni am funud*] Na, nid felly y dylai hi fod. Ganwyd fy maban i'r byd hwn. Tydi o ddim yn perthyn i fyd arall, yn yr oes hon beth bynnag. Bydd yn rhaid i ni aros yma, a gwireddu ewyllys Duw i'r pen eithaf.

ARCHWILIWR: Gallwn ei gorfodi i ddod efo ni, Athro. Fasa hi ddim yn medru ein hatal.

ATHRO: Fedrwn ni ddim gorfodi mab creawdwr y sêr i wneud dim byd. Bydd yn dewis ei lwybr ei hun. Wnawn ni ddim mo'ch cadw mwy, madam. Maddeuwch i ni am darfu arnoch. Dymunwn bopeth sy'n dda i chi a'r mab bychan. Mae'n debyg na welwn ei fath, hyd yn oed petaem yn teithio hyd a lled y Llwybr Llaethog.

[*Maen nhw'n moesymgrymu a gadael. Mae MAIR yn cerdded i fyny canol y llwyfan neu hyd yn oed i lawr llwybr* [*eil*] *y capel neu'r eglwys. Mae'r ATHRO a'r ARCHWILIWR yn mynd yn ôl i'w llong-ofod*]

CAPTEN: Glywsoch chi rywbeth diddorol 'ta?

ATHRO: Do wir, rhywbeth diddorol iawn. Tydw i ddim yn credu y dylen ni chwilio ymhellach. Pa reswm sydd i chwilio am y sêr a ninnau wedi dod o hyd i greawdwr y sêr ei hun?

CAPTEN: Pa gwrs rŵan 'ta, Athro?

ATHRO: Cwrs am adre, cwrs am y blaned Marctus. A pheidiwch ag aflonyddu arna i yn ystod y daith yn ôl. Mae gen i lawer ar fy meddwl.

ARCHWILIWR: Marctus, rydan ni ar ein ffordd. Gafaelwch yn dynn.

[*Cerddoriaeth addas hyd at ddiwedd y ddrama*]

**DIWEDD**